**ATODIAD 1**
**Crynodeb o’r sylwadau a dderbyniwyd ynghylch:**

**CCA y Gymuned a’r Gymraeg respondent**

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw’r ACLl | Newid Arfaethedig i’r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| **1.** | Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyflwynodd CNC ymateb i’r broses ymgynghori i nodi’n ffurfiol nad oedd ganddyn nhw unrhyw sylw i’w wneud ynghylch y CCA hyn. | Nododd yr ACLl yr ymateb | Dim angen newid |
| **2.** | Cyngor Tref Llanbedr P.S. | t.14 pt 2.<br>Mae hwn yn gwestiwn pwysig iawn. Rhaid rheoli’r cynnydd yn y mewnlifiad, sy’n effeithio ar y cynnydd yn y nifer o gartrefi di-gymraeg.<br>t.15 pt 8.<br>Pwysig iawn eto. Rhaid sicrhau nad oes unrhyw fygythiad i fusnesau Cymraeg yn sgil unrhyw ddatblygiad.<br>t.16 pt 12<br>Mae’r gost gyfartalog yn bendant yn effeithio ar allu pobl ifanc lleol i | Mae’r ACLl yn nodi’r sylwadau, fodd bynnag gwneir y rhain fel sylwadau gan yr Ymatebydd ac felly nid oes gofyn addasu’r CCA presennol. | Dim angen newid |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw’r ACLl | Newid Arfaethedig i’r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | brynu tai yn eu hardaloedd. Hapus iawn gyda natur y cwestiynau a’r trafodaethau. Nifer o ardaloedd eisoes wedi’u heffeithio gan fewnlifiad gormodol o bobl ddi-gymraeg. | | |
| **3.** | Cyngor Cymuned Melindwr | Sylw na chyrhaeddodd y dogfennau ar amser. | Mae’r ACLl yn cydnabod bod yna rywfaint o oedi cyn dosbarthu’r hysbysiad am yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, mater o ddyddiau’n unig oedd hyn a dosbarthwyd y dogfennau o fewn wythnos gyntaf yr ymgynghoriad, yn hytrach na thair wythnos fel y nodwyd gan y Gwrthwynebydd. Mae’r ALl o’r farn bod yna ddigon o amser, yn enwedig o ystyried bod y cyfnod a ganiatawyd eisoes ychydig yn hwy na'r cyfnod o 6 mis sy’n ofynnol ar gyfer ymgynghoriadau o’r fath. | Dim angen newid |
| **4.** | Cangen Cynlluniau Llywodraeth Cymru (LlC) | Mae LlC yn cydnabod bod CCAau yn arfau defnyddiol ar y cyfan sy’n helpu’r rhai sy’n gwneud penderfyniadau a’r rhai sy’n cyflwyno | Mae’r ACLl yn croesawu’r gefnogaeth a’r gydnabyddiaeth i werth CCAau yn gyffredinol. Mae’r sylw yn un amhenodol ac felly does dim angen diwygio’r CCA yn yr achos hwn. | Dim angen newid |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw’r ACLl | Newid Arfaethedig i’r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | ceisiadau cynllunio i ystyried mesurau lliniaru priodol neu wneud penderfyniad ynghylch cais cynllunio, ac mae LlC felly’n cefnogi’r drefn o baratoi CCA yn gyffredinol.<br>Mae LlC yn pwysleisio na ddylai CCA gyflwyno polisïau, ond ymestyn ac ychwanegu manylion at y polisïau presennol a osodir yn y CDLl | | |
| **5.** | Cangen Cynlluniau, Llywodraeth Cymru (LlC) | Mae LlC yn gofyn am esboniad o’r berthynas rhwng maen prawf 1b o Bolisi DM01 y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) a fabwysiadwyd, â’r modd y bydd yr awdurdod yn mesur cyflymder y gyfradd ddatblygu yn y lleoliadau dynodedig, sef yn benodol “ar gyfradd gyflymach na’r un y cyfeirir ati yn y Grŵp Aneddiadau.” Yn ogystal, os na nodir | Mae para 8.13 o Gyfrol 1 y CDLl yn esbonio’r saith Canolfan Gwasanaethau y mae maen prawf 1b yn berthnasol ar eu cyfer. Mae’n egluro nad yw cyfradd y datblygiad yn broblem, ac eithrio o fewn yr aneddiadau hynny, felly dim ond ar gyfer y saith a enwyd yr oedd maen prawf 1b yn berthnasol. Mae’r paragraff hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod Datganiadau Grwpiau Aneddiadau unigol, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch, hefyd yn crybwyll yr angen am ddatblygu fesul cyfnod | Darperir testun ychwanegol mewn ymateb i bwynt 6 isod. |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw’r ACLl | Newid Arfaethedig i’r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | cyfradd, a ydy hynny’n golygu na fyddai’r polisi’n berthnasol? | lle bo angen (unwaith eto gyda’r saith a enwyd). Pan na chyfeirir at ddatblygu fesul cyfnod yna nid yw’n ofyniad. Er enghraifft, mewn perthynas â Thalybont, mae paragraff 22.2.11 yn nodi y bydd gofyn datblygu fesul cam. Mae’n gosod sut y bydd yr ALl yn edrych ar y gyfradd, ble rydym arni o fewn y cyfnod cynllunio, a faint o’r datblygiadau a gymeradwywyd sydd wedi’u cwblhau, a faint sydd eto i ddod. | |
| **6.** | Cangen Cynlluniau, Llywodraeth Cymru (LlC) | Mae paragraff 2.5.2 o’r CCA yn rhestru pentrefi yng Nghyfrol 2A o’r CDLl sydd angen eu datblygu fesul cyfnod, ond ni esbonnir sut mae’r datblygu fesul cyfnod yn cael ei weithredu. Dylai’r CCA esbonio sut mae’r awdurdod yn mesur y datblygu fesul cyfnod a’r cyfraddau cyflenwi a ragwelir fel bod yr wybodaeth hon ar gael i | Mae paragraff 2.5.2 o’r CCA yn nodi nifer o grwpiau aneddiadau lle mae gofyn datblygu fesul cyfnod. Cytunir y dylai’r paragraff hwn wneud hi’n gliriach mai ar gyfer Canolfannau Gwasanaeth y saith Grŵp Aneddiadau hynny y bydd datblygu fesul cyfnod yn berthnasol, ac nid unrhyw aneddiadau eraill o fewn y Grwpiau hynny. | Esbonio rôl a phwrpas datblygu fesul cyfnod.<br>Pwysleisio ble mae cyfraddau cyflenwi rhagweladwy wedi’u gosod.<br>Mae’r geiriau ‘yn unig’ wedi’u gosod yn y frawddeg ganlynol ym Mharagraff 2.5.2:<br>‘Mewn perthynas â thai mae’r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi nodi yn Natganiadau Grwpiau Aneddiadau Aberaeron (Llwyncelyn), Felin-fach/Ystrad Aeron, Llanilar, Llanrhystud, Pontarfynach, Pontrhydfendigaid a Thal-y-bont y bydd angen rheoli cyfradd ddatblygu’r tai newydd.’<br>Mae’r testun canlynol wedi’i ychwanegu mewn perthynas â datblygu fesul cyfnod ym mharagraff 2.5.2: |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw'r ACLl | Newid Arfaethedig i'r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | ymgeiswyr i sicrhau eglurder. Byddai hyn yn cynorthwyo'r broses o wneud cais cynllunio. | | Er enghraifft, os oes gan anheddiad ddyraniad o 90 o dai, bydd yr ACLl yn mynd ati i fonitro'r cyflenwi a sicrhau bod oddeutu 30 o dai yn cael eu datblygu o fewn cyfnod penodol o 5 mlynedd o fewn cyfnod y cynllun. Os nad dyna'r achos, bydd yr ACLl yn ystyried datblygu fesul cyfnod i liniau'r effeithiau. Mae'r frawddeg ganlynol wedi'i hychwanegu hefyd at ddiwedd Paragraff 2.5.2 i egluro ymhellach: yn unol â maen prawf 1a Polisi DM01. Gydag Aneddiadau Cyswllt, ystyrir bod cyfradd y datblygu'n broblem pan fydd yn uwch na 4% mewn unrhyw gyfnod treigl 5 mlynedd, yn unol â maen prawf 1b polisi DM01. Mae'r Cyngor yn monitro'r gyfradd ddatblygu o fewn Aneddiadau Cyswllt bob mis. Cyhoeddir y canlyniadau diweddaraf yma: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=17012. |
| **7.** | Cangen Cynlluniau, Llywodraeth Cymru (LlC) | Mae'r cwestiynau a gynhwyswyd yn yr holiadur Asesu Effaith ar y Gymraeg hefyd yn peri peth pryder. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod yr holl gwestiynau'n seiliedig ar dystiolaeth gref, eu bod yn fesuradwy, a'u bod | Mynegwyd pryderon gan LlC am y cwestiynau a gynhwyswyd yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, fodd bynnag ni chyfeiriwyd at unrhyw enghreifftiau penodol.<br><br>Mae'r ACLl wedi adolygu'r holl gwestiynau yn yr holiadur Asesu Effaith ar y Gymraeg i sicrhau eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth | Dim angen newid. |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw’r ACLl | Newid Arfaethedig i’r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | felly’n hwyluso’r broses o wneud penderfyniadau, yn hytrach na pheri amwysedd. | gadarn. Mae’r ACLl yn hyderus mai dyna’r achos ac nad oes angen unrhyw newidiadau pellach. | |
| **8.** | Cymdeithas Yr Iaith, Rhanbarth Ceredigion | Mae’r Cyngor yn cydnabod y bu gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn sgil canlyniadau’r ddau Gyfrifiad diwethaf. Mae hefyd yn cydnabod bod yna ganran sylweddol o siaradwyr Cymraeg ym mhob ward o hyd, a bod y Gymraeg yn elfen sylweddol o fewn y rhan fwyaf o gymunedau’r sir. Mae hwn yn ffactor pwysig i’w ystyried. | Mae’r ACLl yn nodi’r sylw | Dim angen newid. |
| **9.** | Cymdeithas Yr Iaith, Rhanbarth Ceredigion | **Polisi DM01 -** Er bod Polisi DM01 ‘Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a’r Iaith Gymraeg’ yn rhan o CDLl Ceredigion, petai’r Cynllun yn cael ei selio ar yr angen am dai - yn | Mae’r angen am dai o fewn CDLl Ceredigion yn cael ei amcangyfrif mewn dwy ffordd:<br>•Gwneir amcangyfrif tymor canolig ar lefel sirol o’r angen sy’n addas ar gyfer cynllunio strategol trwy fodelu gwybodaeth arolygon sylfaenol a data ystadegol eilaidd. | Dim angen newid. |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw'r ACLl | Newid Arfaethedig i'r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | nhermau nifer a lleoliad y tai - byddai polisi o'r fath yn ddiangen. Byddai hyn yn wir hefyd mewn perthynas â phwynt 2.5.2 o'r Canllawiau. Mae'n cyfeirio at ardaloedd penodol lle mae angen mwy o ofal ac ystyriaeth, a'r argymhelliad yw datblygu fesul cyfnod. Eto, dylid adeiladu tai'n seiliedig ar yr angen am dai. | •Darperir amcangyfrif tymor byr o agweddau arbennig o'r angen mewn ardal fach wledig sy'n ddefnyddiol ar gyfer prosiectau penodol (e.e. gwaith y Galluogwr Tai Gwledig) trwy gyfrwng arolwg lleol.<br>Amcangyfrifir yr angen am dai ar draws y sir trwy ddefnyddio model cyflenwad a galw, sy'n rhoi ystyriaeth i'r prif elfennau megis chwalu aelwydydd, ffurfio aelwydydd, cynilion ac incwm, costau tai (rhenti a phrisiau), ac anghenion ychwanegol megis addasu ar gyfer anableddau. Sail yr astudiaeth gyntaf o anghenion tai yng Ngheredigion yn 2004 oedd arolwg cynhwysfawr o gyfweliadau wyneb yn wyneb gyda 1,500 o aelwydydd a ddewiswyd ar hap o bob cwr o'r sir. Roedd yr arolwg yn cynnwys gwybodaeth nad oedd ar gael o ffynonellau eilaidd, megis cynilion aelwydydd, bwriadau aelwydydd, agwedd tuag at arian, anghenion tai arbennig ac ati. Mae'r model, ar ei lefel symlaf, yn cyfrifo cyfanswm y galw am dai, a | |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw'r ACLl | Newid Arfaethedig i'r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | | chyfanswm y cyflenwad sydd ar gael. Mae'r model yn paru'r holl ffynonellau cyflenwi gyda'r galw yn nhermau fforddiadwyedd (rhentu a gwerthu), yn ogystal ag agweddau megis maint y teulu a maint yr annedd. Diffinnir aelwydydd na all gwrdd â'u hanghenion o'r cyflenwad presennol am rent neu bris fforddiadwy, neu sydd ag anghenion arbennig, fel rhai sydd ag angen am dai. Cafodd yr arolwg cychwynnol o gyfweliadau ei feincnodi ar lefel sirol, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddata eilaidd. Cynlluniwyd canlyniadau'r arolwg cychwynnol gyda chyllid 5 mlynedd, ac ers hynny mae'r model wedi'i ddiweddaru gyda data eilaidd a gwybodaeth arolwg arall. Mae'r astudiaethau lleol o ardaloedd bach a gynhelir gan y Galluogwr Tai Gwledig o natur wahanol iawn, ac maent yn seiliedig ar arolwg o'r bwriad i ffurfio aelwydydd, a dirnadaeth sampl a hunan-ddewiswyd o breswylwyr presennol ardal fach (e.e. Ward Etholiadol neu ardal | |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw’r ACLl | Newid Arfaethedig i’r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | | Cyngor Cymuned). Mae’r arolygon hyn yn rhoi syniad o’r farn am dai ar lefel leol, ynghyd â pheth gwybodaeth am yr angen am dai, a gallant fod yn arbennig o ddefnyddiol fel ymarfer i ehangu’r ddadl ynghylch tai mewn ardal leol. Caiff gwerth canlyniadau’r arolwg, fodd bynnag, eu cyfyngu gan y fethodoleg: gallant gyfleu dyheadau yn hytrach nag angen; gallant gael eu disodli’n gyflym gan newid yn amgylchiadau unigolion; nid ydynt yn cyfleu angen y bobl nad ydynt yn ymateb. Yn arbennig, ni all y dull hwn ddarparu methodoleg ar gyfer cyfleu’r angen am dai ar raddfa fwy, am nad yw’n rhoi ystyriaeth i deuluoedd mewn angen sy’n gorfod symud o un lleoliad i’r llall. | |
| **10.** | Cymdeithas Yr Iaith, Rhanbarth Ceredigion | **Asesiadau Effaith –** mae pwynt 2.6.1 o’r Canllawiau’n cyfeirio at sefyllfaoedd fydd yn gofyn am asesu effaith y datblygiad ar y Gymraeg, ond dylid | Mae’r iaith Gymraeg yn ystyriaeth bwysig wrth lunio Cynlluniau Datblygu Lleol ac mae’r Cyngor wedi gwneud pob ymdrech, yn arbennig trwy’r broses Gwerthuso Cynaladwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, i sicrhau | Dim angen newid |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw'r ACLl | Newid Arfaethedig i'r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | ystyried yr effaith ar y Gymraeg wrth ddelio gyda phob cais cynllunio dan y CDLl, yn ogystal â phob cais arall. Ymddengys bod hwn yn berthnasol i ddatblygiadau sy'n ychwanegol at y CDLl, ond nid yw'n gwbl glir pa asesiadau a wnaed o effaith datblygiadau o fewn y CDLl ar y Gymraeg. | na fydd ei CDLl yn achosi niwed sylweddol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Yn wir roedd y broses hon yn gosod y Gymraeg ar yr un lefel ag ystyriaethau cynaladwyedd eraill. Mae'r Cyngor o'r farn, fodd bynnag, bod yna hefyd fathau arbennig o gynigion lle dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r Gymraeg pan gyflwynir y cais cynllunio. Yn hyn o beth, mae Polisi DM01 CDLl Ceredigion yn gofyn bod Asesiadau Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn cael eu cyflwyno fel rhan o rai ceisiadau cynllunio.<br>Nid yw'n briodol gofyn am asesiad ar gyfer pob cais oherwydd mae'r rhan fwyaf yn annhebygol o gael unrhyw effaith ar y defnydd o'r Gymraeg. Fodd bynnag, pan fydd y cais ar gyfer datblygiad sydd o faint sylweddol o fewn cymdogaeth benodol, neu pan fydd yn arwain at gyfradd ddatblygu sy'n uwch na'r hyn a welwyd o'r blaen o fewn y gymdogaeth, yna mae'r Cyngor yn gofyn bod tystiolaeth yn cael ei chyflwyno i ddangos na fydd | |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw’r ACLl | Newid Arfaethedig i’r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | | unrhyw niwed sylweddol i’r defnydd o’r Gymraeg, neu’n well fyth, sy’n dangos budd y cynnig o ran sicrhau neu gynyddu’r defnydd o’r Gymraeg. Bydd yn berthnasol i’r rhan fwyaf o geisiadau, oherwydd mae’r rhan fwyaf o aneddiadau wedi cyrraedd eu capasiti o ran derbyn mwy o ddatblygiadau. Rhaid i bob cais cynllunio ystyried a ydy DM01 yn berthnasol, ond yn unol â maen prawf 1a ac 1b a 2, mae’n dibynnu ar raddfa a maint y datblygiad arfaethedig. | |
| **11.** | Cymdeithas Yr Iaith, Rhanbarth Ceredigion | Er bod yr Holiadur Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn adran 2.13 yn rhoi ystyriaeth i’r mudo i mewn ac allan, yr iaith Gymraeg, a’r ddarpariaeth o wasanaethau allweddol ar lefel gymunedol a sirol, mae’n achos pryder mai’r ymgeisydd/datblygwr yw’r un fydd yn cynnal | Cynnig eglurhad ar y cyfeiriadau o fewn y CCA sy’n nodi pwy ddylai gynnal yr asesiad a phwy yw’r ‘aseswr’. Gwneud hi’n glir mai’r ymgeisydd sy’n gyfrifol am gyflwyno’r asesiad, a wnaed gan aseswr, gyda’r cais cynllunio, a bod yr ALl yn gyfrifol am ystyried, gwirio a dilysu’r wybodaeth. Mae’r CCA yn cydnabod ym mharagraff 3.3.1 bod y broses hon yn asesiad gwrthrychol, ond dylai fod yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael (felly ni fydd hi bob amser yn | Diwygio’r CCA i egluro y bydd yr asesiad ei hun yn cael ei gynnal gan yr ymgeisydd a’i gyflwyno i’r ACLl. Bydd yr ALl yn gyfrifol am adolygu’r asesiad fel rhan o’r broses o wneud penderfyniad ynghylch cais cynllunio. |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw'r ACLl | Newid Arfaethedig i'r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | yr asesiad. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd yr ymgeisydd yn meddu ar ddigon o wybodaeth ac arbenigedd i wneud asesiad diduedd a gwrthrychol; mae hynny'n anodd am fod ganddynt fuddiant yn y mater. Dylai asesiadau o'r effeithiau ieithyddol gael eu cynnal gan drydydd parti diduedd sydd â chymwysterau addas - gallai'r Cyngor Sir ei hun ddarparu rhestr o bobl cymwys o'r fath. Ymddengys bod yr holiadur hwn hefyd yn ymwneud â datblygiadau sy'n ychwanegol at y CDLl - ac eto mae'n aneglur a ydy'r datblygiadau sy'n rhan o'r Cynllun wedi bod trwy'r broses hon. Pe byddai datblygiadau'n digwydd ar sail angen lleol - yn | bosib darparu gwybodaeth ystadegol, weithiau mae gwybodaeth ansoddol hefyd yn berthnasol).<br>Ni all yr ACLl argymell asiantaethau/personau cymwys i ymgymryd ag Asesiadau Effaith Cymunedol ac Ieithyddol oherwydd rheolau cystadlu / amddiffyn data ac ati.<br>Roedd yr holl bolisïau a safleoedd a ddynodwyd yn y CDLl yn destun Gwerthusiad o Gynaladwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol y CDLl, sef proses o asesu'r effaith ar y gymuned a'r Gymraeg sydd i'w gweld yma: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=17756<br>Bydd yr holiadur yn berthnasol i bob cais cynllunio sy'n dod dan faen prawf 1 neu 2 o Bolisi DM01, p'un ai ydyw ar safle dynodedig neu'n hap-safle.<br>Gweler ymateb yr ACLl i sylw 10 uchod mewn perthynas â phwyntiau angen lleol. | |

| | Ymatebydd | Mater a Godwyd gan yr Ymatebydd | Sylw'r ACLl | Newid Arfaethedig i'r CCA? |
|---|---|---|---|---|
| | | nhermau nifer a lleoliad - ni fyddai'r holiadur hwn yn berthnasol nac yn angenrheidiol. | | |
| **12.** | Mr Narrainen | Yn cefnogi paragraff 2.3.3 | Mae'r ACLl yn nodi'r gefnogaeth | Dim angen newid |
| **13.** | ALl | Amh. | Mae angen mynd i'r afael â nifer o faterion sillafu/gramadegol a llif geiriau o fewn y ddogfen. Bydd y rhain yn cael sylw cyn ei mabwysiadu, ynghyd â pheth ailfformatio. | Amryw o faterion gramadegol, sillafu, llif geiriau, cyhoeddi sydd angen sylw trwy'r ddogfen gyfan. |

Mae'r ALl hefyd wedi nodi mân newidiadau eraill i'r CCA a cheir crynodeb o'r rhain isod (does dim o'r rhain yn newid egwyddorion na chynnwys y CCA):

**Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol – Tabl Diwygio'r CCA**

| Newid | Rheswm | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| Dilëwyd y testun canlynol o Baragraff 2.2.3 a'i ailfformatio a'i rannu'n ddau baragraff newydd, sef 2.3.5 a 2.3.6:<br>Yn ogystal, mae'r effaith y gall datblygiad newydd ei gael ar gymuned yn ystyriaeth berthnasol, elfennau y gellid eu hystyried yw a yw'r datblygiad yn rhy fawr i'r anheddiad, a fyddai'r datblygiad yn rhoi pwysau gormodol ar wasanaethau cyhoeddus e.e. yr ysgol, gwasanaethau cyhoeddus ac ati. Lle gall fod yna effeithiau negyddol, gellir defnyddio mesurau lliniaru megis datblygu fesul cyfnod i leihau'r effaith, er y dylai'r amod fod yn seiliedig ar asesiad o'r dystiolaeth leol, fel y nodir yn Adroddiad Archwiio CDLl Cyngor Sir | Wedi'i symud i baragraff 2.3.5 a 2.3.6 | 3 / 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Ceredigion.  Daeth yr Archwiliad i’r casgliad hefyd y byddai’r defnydd o asesiadau mewn perthynas â cheisiadau cynllunio unigol yn briodol mewn rhai amgylchiadau, o ystyried natur ieithyddol yr ardal. | | |
| Ychwanegwyd y testun canlynol ar ddiwedd Para 2.3.1:<br>ac maent yn cynnwys y polisïau CDLl canlynol:<br>•S01: Twf Cynaliadwy<br>•S02: Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaethau Trefol<br>•S03: Datblygu o fewn Canolfannau Gwasanaethau Gwledig<br>•S04: Datblygu mewn ‘Aneddiadau Cyswllt a Lleoliadau Eraill’<br>•S05: Tai Fforddiadwy<br>•DM01: Rheoli Effeithiau Datblygu ar Gymunedau a’r Gymraeg<br>•DM08: Arwyddion ac Enwau Lleoedd Dwyieithog<br>•DM19: Y Dirwedd Hanesyddol a Diwylliannol | Croesgyfeirio at adrannau perthnasol o’r Cynllun Datblygu Lleol | 3 |
| Ychwanegwyd y testun canlynol ar ddiwedd 2.3.2:<br>ar ffurf Asesiad Effaith Cymunedol ac  Ieithyddol. | Eglurhad pellach | 3/4 |
| Symud rhan o baragraff 2.3.4 i 2.3.5 a’i ailfformatio. | Haws ei ddarllen | 4 |
| Ychwanegwyd rhif paragraff (2.4.2) i’r paragraff ar ôl 2.4.1 a chrëwyd paragraff newydd sef 2.4.3 gyda’r testun canlynol:<br>Mae Atodiad 3 yn darparu ystadegau poblogaeth ar nifer a chanran (%) y Siaradwyr Cymraeg fesul Ward Etholiadol. | Croesgyfeirio | 5 |
| Ychwanegwyd y testun canlynol at paragraff 2.5.2:<br>Ychwanegu ‘yn unig’ ar ôl Talybont<br>Ar ôl y frawddeg sy’n gorffen … Anheddiad yn ystod unrhyw gyfnod o’r cynllun - ychwanegu ‘Er enghraifft, os oes gan anheddiad ddyraniad o 90 o dai, bydd yr ACLl yn anelu at fonitro’r cyflenwad gan sicrhau bod oddeutu 30 o dai’n cael eu datblygu o fewn unrhyw gyfnod o 5 mlynedd yn ystod cyfnod y cynllun.  Os nad dyna’r achos, bydd yr ACLl yn ystyried datblygu fesul cam i liniaru’r effeithiau.’<br>Ychwanegu ‘(dros gyfnod y cynllun’) ar ôl Datblygu Fesul Cyfnod<br>Ychwanegu’r canlynol ar ddiwedd y paragraff: | Croesgyfeirio ac egluro | 8 |

| | | |
|---|---|---|
| 'yn unol â maen prawf Polisi DM01. Gydag Aneddiadau Cyswllt, ystyrir bod y gyfradd ddatblygu'n broblem pan fydd yn uwch na 4% o fewn unrhyw gyfnod treigl o 5 mlynedd yn unol â pholisi DM01, maen prawf 1b: Mae'r Cyngor yn monitro'r gyfradd ddatblygu mewn Aneddiadau Cyswllt. Cyhoeddir y canlyniadau diweddaraf yma: http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=17012.' | | |
| Ychwanegwyd y testun canlynol at baragraff 2.5.7:<br>Ar ôl y frawddeg 1af ychwanegu:<br>Darperir arweiniad pellach ar yr effeithiau negyddol posib yn adran 4.1 Nodiadau.<br>Ychwanegu ar ddiwedd y paragraff:<br>Mae'r Mesurau Lliniaru y gall yr ACLl ddymuno'u trafod yn cynnwys: Datblygu Fesul Cyfnod, Arwyddion Dwyieithog a Chynlluniau/Rhaglenni Iaith. | Croesgyfeirio ac egluro | 8/9 |
| Newid rhif paragraff 2.9.1 i rif paragraff 3.3.1 / 2.9.1<br>A newid y testun fel a ganlyn:<br>3.1.1Mae methodoleg yr Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol yn cynnwys ~~rhestr wirio~~ **holiadur** sy'n galluogi'r datblygwr a'r ACLl i gynnal asesiad o effaith debygol y datblygiad arfaethedig yn erbyn pum agwedd o fywyd cymunedol:<br>A.**Nodweddion** poblogaeth (lefelau nodweddion y boblogaeth honno);<br>B.Ansawdd bywyd (gan ddarparu ysgogiad i bobl aros, adael neu symud i'r gymuned);<br>C.~~Yr Economi~~ **Ffactorau Economaidd** (sy'n effeithio ar gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer grwpiau cymdeithasol gwahanol, yn ogystal â chostau byw ac, yn fwy penodol, cost tai);<br>D.**Darpariaeth** Seilwaith (sydd ei hangen i gynnal y gymuned, yn arbennig ysgolion, gofal iechyd a gwasanaethau hanfodol); ac<br>E.~~Y Bywyd Cymdeithasol a Diwylliannol~~ **Agweddau cymdeithasol a diwylliannol** ~~o~~ bywyd cymunedol (a fynegir trwy hyfywedd sefydliadau diwylliannol, yn arbennig y rhai sy'n effeithio ar bobl ifanc a phobl hŷn).<br>Hefyd diwygio paragraff 2.12.2 / 3.4.2, ac is-deitlau Atodiad 1 Holiadur fel bo angen. | Cysondeb o ran terminoleg | 11/12 |
| Defnyddio 'Holiadur' yn lle 'Rhestr Wirio' trwy'r ddogfen gyfan. | Cysondeb/ Terminoleg | Amh. |
| Dilëwyd '(yr ACLl)' lle'r oedd yn ymddangos ar ôl y gair 'asesydd' trwy'r ddogfen gyfan. | Cysondeb/ Terminoleg | Amh. |
| Dilëwyd yn dilyn y frawddeg o Nodiadau ar gyfer Cwestiwn 2: | Enghraifft | 21/22 |

| | | |
|---|---|---|
| ‘Fodd bynnag, nid yw datblygiad cartrefi gwyliau yn debygol o achosi unrhyw newid parhaol i’r strwythur cymdeithasol, a gall arwain at fuddiannau economaidd a asesir mewn cwestiynau eraill yn nes ymlaen.’ | amherthnasol | |